

Sut bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn defnyddio gwybodaeth sy'n cael ei chadw amdanoch chi

Mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) yn cadw gwybodaeth fanwl am bobl a sefydliadau sy'n talu trethi datganoledig¹ yng Nghymru. Os ydych chi neu eich busnes naill ai'n talu trethi datganoledig, yn ymwneud â thrafodiad sy'n agored i drethi datganoledig (er enghraifft gwerthu eiddo lle mae angen talu Treth Trafodiadau Tir), neu'n cysylltu ag ACC i gael cyngor ac arweiniad, mae'n bosibl fod ACC wedi cael gwybodaeth amdanoch chi ac yn cadw'r wybodaeth honno. Efallai mai chi sy'n darparu'r wybodaeth i ACC yn uniongyrchol, neu drwy asiant (bydd ACC yn cadw gwybodaeth am yr asiant hefyd), neu drwy drydydd parti.

Dim ond i gefnogi ei swyddogaeth swyddogol o gasglu a rheoli trethi, neu ei ddyletswyddau cyfreithiol eraill, y bydd ACC yn defnyddio'r data a'r wybodaeth amdanoch chi. Mae hyn yn sicrhau bod y swm cywir o dreth yn cael ei gasglu ac yn cael ei dalu ar yr adeg iawn. Bydd ACC hefyd yn cynnal gwaith ymchwil a dadansoddi er mwyn deall y dreth a gesglir yng Nghymru yn well, ac er mwyn datblygu a gwella'r gwasanaethau treth a ddarperir i unigolion a sefydliadau.

Er bod prosesu'r wybodaeth hon amdanoch chi a/neu eich asiant yn gyfreithlon, mae'r cyfreithiau hyn hefyd yn rhoi rhai hawliau i chi, ac weithiau i'ch asiant, sy'n ymwneud â phrosesu'r data hwnnw. Trafodir hyn yn nes ymlaen yn yr hysbysiad hwn.

Pa wybodaeth all Awdurdod Cyllid Cymru ei chadw amdanoch chi?

➔ Gwybodaeth bersonol amdanoch chi, os yw'n berthnasol, fel: • teitl ac enw llawn • cyfeiriadau presennol a blaenorol • dyddiad geni • cyfeiriad e-bost a rhif ffôn • dulliau adnabod, fel eich rhif yswiriant gwladol, rhif pasbort neu rif trwydded yrru	➔ Gwybodaeth am eich busnes, os yw'n berthnasol, fel: • enw neu enw masnachu • cyfeiriadau presennol a blaenorol • cyfeiriad e-bost a rhif ffôn • Rhif cofrestru Tŷ'r Cwmnïau neu rif cofrestru TAW ➔ Gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch trafodiadau treth, gan gynnwys unrhyw gyfeiriadau dan sylw a symiau sy'n ddyledus
---	---

Sut bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn defnyddio eich gwybodaeth?

✓ Cefnogi'r gwaith o gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru ✓ Sicrhau y cydymffurfir â chyfraith trethi drwy: • asesu'r risg o osgoi, gwallau a thwyll mewn ffurflenni a thaliadau treth; • lleihau achosion o osgoi, gwallau a thwyll drwy adennill dyledion a rhoi cosbau priodol; a • chymryd cam arall cyfreithlon yn eich erbyn chi neu eich asiant i gefnogi'r uchod ✓ Pan fo'r gyfraith yn caniatáu hynny, gweithio gyda phartneriaid y sector cyhoeddus (gan gynnwys yr isod, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny: • asiantaethau gorfodi'r gyfraith; • adrannau perthnasol o'r llywodraeth gan gynnwys CThEM, Cyllid yr Alban a Llywodraeth Cymru; • awdurdodau lleol; a • Cyfoeth Naturiol Cymru) i gefnogi swyddogaethau cyffredin, gan gynnwys rhannu a chysylltu eich data chi neu ddata eich asiant	✓ Cefnogi gwaith ymchwil a dadansoddi manwl i ddeall y trethi a gesglir yng Nghymru ac i ddatblygu a gwella'r gwasanaethau trethi a ddarperir yma, gan gynnwys gwaith ymchwil allanol ✓ Darparu cyngor ac arweiniad i chi ar eich cais a defnyddio'r dull cyfathrebu o'ch dewis. ✗ Ni fyddwch chi na'ch asiant yn cael eich adnabod mewn unrhyw adroddiad dadansoddi nac ymchwil a gyhoeddir gan ACC ✗ Ni fydd gwybodaeth amdanoch chi na'ch asiant yn cael ei rhannu â phartner allanol oni bai fod rheswm cyfreithlon dros wneud hynny, a bod y prosesu'n deg ac yn angenrheidiol ✗ Ni fydd gwybodaeth amdanoch chi na'ch asiant yn cael ei defnyddio na'i chadw wedyn pan fydd unrhyw un o'r hawliau a nodir isod yn berthnasol, a phan fyddwch chi neu eich asiant wedi arfer yr hawl honno
--	--

¹ Trethi y mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol amdanynt yw'r trethi hyn, ac ACC sy'n eu casglu a'u rheoli.

Sut bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn defnyddio gwybodaeth sy'n cael ei chadw amdanoch chi

Am ba mor hir y bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn cadw eich gwybodaeth?

Bydd ACC yn cadw'r wybodaeth amdanoch chi neu eich asiant gyhyd ag y bydd yn cefnogi'r defnyddiau a ddisgrifir. O ran gwybodaeth amdanoch chi neu eich asiant a ddefnyddir at ddibenion gwaith dadansoddi neu waith ymchwil i'w gyhoeddi'n allanol, bydd ACC yn ceisio tynnu'r holl wybodaeth sy'n cynnwys nodweddion adnabod ar eich cyfer chi neu eich asiant cyn cynnal y gwaith dadansoddi neu'r gwaith ymchwil hwnnw.

Beth yw eich hawliau o ran defnyddio eich data?

O dan ddeddf diogelu data, mae gennych chi rai hawliau o ran prosesu eich data, sy'n dibynnu ar y sail gyfreithiol dros gasglu eich data a sut defnyddir eich data. Mae gennych yr hawl i gael gwybod sut rydym yn defnyddio eich data bob tro y byddwn yn gwneud hynny, ac mae'r hysbysiad hwn yn cyfiawnhau'r hawl honno. Fodd bynnag, mae hawliau gwahanol yn berthnasol mewn gwahanol amgylchiadau, fel isod.

- **Gwybodaeth amdanoch chi a ddarperir yn uniongyrchol i ACC at ddibenion casglu a rheoli trethi**
- **Gwybodaeth amdanoch chi a ddarperir yn uniongyrchol i ACC i sicrhau y cydymffurfir â'r gyfraith sy'n ymwneud â threthi**

Bydd hyn yn cynnwys y cyngor a'r arweiniad y mae ACC yn eu darparu ynghylch y trethi y mae'n gyfrifol amdanynt.

✓ yr hawl i gael gwybod (yr hysbysiad hwn)	✓ Yr hawl gyfyngedig i gywiro unrhyw wallau yn eich gwybodaeth (gellir cyfyngu ar hyn o dan rai amgylchiadau)
✓ yr hawl i gael mynediad at eich gwybodaeth (gellir cyfyngu ar hyn o dan rai amgylchiadau)	

- **Gwybodaeth amdanoch chi a geir gan sefydliadau eraill i sicrhau y cydymffurfir â'r gyfraith sy'n ymwneud â threthi**
- **Gwybodaeth amdanoch chi a ddefnyddir i asesu risg o dwyll neu wall, gan gynnwys proffilio awtomatig**

✓ yr hawl i gael gwybod (yr hysbysiad hwn)	✓ ar yr amod fod seiliau cyfreithiol dros atal prosesu, yr hawl i wrthwynebu defnyddio'ch gwybodaeth a'r hawl i gyfyngu ar brosesu tra bydd ACC yn asesu unrhyw wrthwynebiad
✓ yr hawl i gywiro unrhyw wallau yn eich gwybodaeth	

- **Gwybodaeth amdanoch chi a ddefnyddir mewn gwaith dadansoddi neu waith ymchwil**
- **Gwybodaeth amdanoch chi a rennir yn gyfreithlon ar gyfer gwaith dadansoddi neu waith ymchwil**

Pan fo hynny'n bosibl, bydd ACC yn tynnu unrhyw wybodaeth adnabyddadwy amdanoch chi o'r data a ddefnyddir at y dibenion hyn. Dim ond pan fydd y gyfraith yn caniatáu hynny y bydd yn trosglwyddo data adnabyddadwy i bartïon eraill, a phan na fyddai'r gwaith ymchwil yn bosibl hebddo.

✓ yr hawl i gael gwybod (yr hysbysiad hwn)
--

- **Gwybodaeth amdanoch chi a gesglir fel cwsmer neu randdeiliad ACC, nad yw'n uniongyrchol berthnasol i dreth (er enghraifft dewisiadau cyfathrebu, neu wybodaeth a gesglir fel rhan o gael adborth neu gŵyn)**

Ni fydd hyn yn cynnwys unrhyw gyngor nac arweiniad y mae ACC yn ei roi ynghylch y trethi y mae'n gyfrifol amdanynt.

✓ yr hawl i gael gwybod (yr hysbysiad hwn)	✓ yr hawl i gael gwybod am unrhyw beth sy'n cael ei gywiro, ei dynnu neu ei gyfyngu yng nghyswllt eich gwybodaeth
✓ yr hawl i gael gweld eich gwybodaeth	
✓ yr hawl i gywiro unrhyw wallau yn eich gwybodaeth	✓ yr hawl i gael eich gwybodaeth mewn fformat sy'n addas i'w drosglwyddo i gorff arall
✓ yr hawl i gael tynnu eich gwybodaeth (ac eithrio pan fo'r data'n ofynnol yn ôl y gyfraith)	✓ yr hawl i beidio â bod yn ddarostyngedig i benderfyniad a wneir ar sail proses awtomataidd yn unig, oni bai eich bod wedi rhoi caniatâd penodol ar gyfer hynny
✓ yr hawl i gyfyngu ar y defnydd o'ch gwybodaeth	

Sut bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn defnyddio gwybodaeth sy'n cael ei chadw amdanoch chi

A yw eich gwybodaeth yn ddiogel?

Bydd ACC yn casglu ac yn storio gwybodaeth amdanoch chi neu eich asiant yn ddiogel. Ni fydd ACC yn pasio'r wybodaeth hon ymlaen i unrhyw bartïon eraill, oni bai ei bod yn gyfreithlon gwneud hynny, a thrwy reolaethau sy'n gofyn am ddiben dynodedig, ac sy'n sicrhau bod data'n cael ei drosglwyddo i'r partïon hynny'n ddiogel.

Rhagor o wybodaeth

I gael disgrifiad llawn o'r wybodaeth sydd gan ACC amdanoch chi neu eich asiant; eich hawliau; y wybodaeth gyfreithiol berthnasol; a chwynion, defnyddiwch y dolenni, neu ysgrifennwch at y Swyddog Diogelu Data yn y cyfeiriadau isod.

[Cliciwch yma am fanylion pellach](#)



E-bost: data@acc.llyw.cymru
Gwefan: <http://llyw.cymru/acc>

Awdurdod Cyllid Cymru
PO Box 110
PONTYPRIDD
CF37 9EH